



Gair i Gall



Monitro a gwerthuso Cenhadaeth a Gwerthoedd



Bydd y canllawiau hyn o gymorth i: fudiadau sydd eisiau deall i ba raddau mae darparu eu gweithgareddau yn cyflawni eu nodau a'u hamcanion.

Yr hyn rydych chi am ei gyflawni:


Eglurder yn eich mudiad o'r cychwyn ynglŷn â'r gweithgareddau y mae eisiau eu darparu a sut mae'r rhain yn cyfrannu tuag at gyflawni eich nodau yn gyffredinol. Bydd hyn yn golygu ei bod yn haws casglu gwybodaeth ar gyfer monitro a gwerthuso llwyddiant o ran cyflawni nodau ac amcanion. ✓

Beth fydd ei angen arnoch chi:

- Dealltwriaeth o'ch gweledigaeth a'ch cenhadaeth ✓
- Templed 'Triongl Cynllunio' ar ffurf pyramid wrth law ✓
- Amser wedi'i neilltuo i feddwl am eich prosiect / gwasanaeth ✓

Sut byddwch chi'n ei wneud:

- Mae cael fframwaith monitro a gwerthuso ar gyfer eich prosiect neu'ch mudiad yn helpu i gadarnhau pa elfennau o wybodaeth monitro y dylid eu casglu. Yn ddelfrydol, dylech sicrhau bod hyn yn ei le cyn i'ch prosiect ddechrau fel y gallwch **sicrhau eich bod yn casglu data perthnasol o'r dechrau.**
- Gall **cynnwys y bobl fydd yn casglu'r data** yn y gwaith o lunio'r fframwaith fod o gymorth.
- Ystyriwch y gallech ddefnyddio **Triongl Cynllunio (isod) neu Theori Newid** i ddechrau arni.



- Mae'r triongl cynllunio yn dechrau gyda'r nod cyffredinol - y newid eang, hirdymor rydych am i'ch prosiect ei gyflawni. Mae dechrau gyda'ch nodau cyffredinol yn eich helpu i **ganolbwyntio ar y newidiadau rydych am eu sicrhau**, yn hytrach na'r gwaith rydych chi'n ei gyflawni. Mae'n gysylltiedig â chenhadaeth eich mudiad.
- Canol pyramid y triongl cynllunio ydy'r nodau penodol - y newidiadau rydych chi am eu sicrhau. Mae'ch nodau penodol yn newidiadau tymor byr i dymor canol rydych chi'n gobeithio fydd yn deillio o'ch gwaith. **Nodwch rhwng 3-5 o nodau penodol.**
- Dylai'ch nodau penodol gyfleu newidiadau e.e. 'lleihau', 'gwella' neu 'cynyddu'. Mae rhaid eu cyflawni er mwyn cynnal cynnydd tuag at gyflawni'ch nod cyffredinol. Er mwyn diffinio eich nodau penodol, gallai meddwl am y rhwystrau sydd yna rhag cyflawni eich nod cyffredinol eich helpu. Wedyn trowch y rhwystrau yma ar eu pennau a'u troi'n **ddatganiadau sy'n mynegi newid cadarnhaol, a dyma fydd eich nodau penodol.**
- Gwaelod y pyramid ydy'r gweithgareddau a'r allbynnau - y gwaith rydych chi'n ei wneud / eisiau ei wneud er mwyn cyflawni eich nodau penodol. **Dylai'r amcanion hyn fod yn gysylltiedig ag o leiaf un o'ch nodau penodol.**
- Gwiriwch fod eich triongl yn adrodd stori glir a realistig ynglŷn â **sut mae'ch mudiad yn gwneud gwahaniaeth yn y tymor byr i'r tymor canol ac yn yr hirdymor.** Dylai fod cysylltiadau rhesymegol rhwng y 3 adran.

- **A fydd darparu’ch amcanion yn cyflawni eich nodau penodol?** Os oes gennych nod penodol heb unrhyw amcanion yn gysylltiedig, a oes unrhyw fathau eraill o waith y dylech chi ystyried eu darparu?
- **Gallwch ddechrau meddwl nawr pa fath o wybodaeth monitro allai fod yn ddefnyddiol.** Gallech fonitro rhai o’ch gweithgareddau trwy gardiau sylwadau, arolygon a chyfweliadau. Efallai y byddwch chi eisiau cael gwybod faint o newid sydd wedi’i gyflawni a chanolbwyntio mwy ar ganfyddiadau’r buddiolwyr o safbwynt cynnydd yn eu hyder eu hunain neu leihad mewn teimladau o unigedd ac unigrwydd.

Beth yw Cysylltu Cymunedau yng Nghymru?

Mae prosiect Cysylltu Cymunedau yng Nghymru yn cael ei gynnal gan y Gymdeithas Cludiant Cymunedol ac yn cael ei gyllido trwy Raglen Cymunedau Gwledig - Datblygu Gwledig 2014-2020 Llywodraeth Cymru, a ariennir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru. Ei nod yw cefnogi cludiant cymunedol yng Nghymru trwy greu partneriaethau newydd, dod â chyllid i mewn i’r sector a chreu rhwydweithiau cludiant newydd.

Gallwch gael gwybod mwy am Cysylltu Cymunedau yng Nghymru yn ctauk.org/cciw-cymraeg.